

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 12fed 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (is-gadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Geraint Davies, Rhys Richards, Gwynfryn Williams a Jean Roberts.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Cynghorwr newydd.

Derbyniwyd llythyr gan Huw Charles, Gwern Dyfrgi yn datgan ei ddiddordeb mewn ymuno a'r cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol i'r cyngor a'i wahodd i'r cyfarfod ym mis Hydref.

b) Derbyniwyd yr ymatebion isod gan Gyngor Gwynedd i'r cwynion a anfonwyd atynt:-

i) Cae chwarae Parc – cafwyd cadarnhad fod trefniadau mewn lle i dorri'r glaswellt.

ii) Ffordd Rhyduchaf yn anwastad ger Fedw Arian Isaf - roedd y safle wedi cael ei archwilio ond nid oeddynt yn gallu gweld dim byd o'i le.

iii) Bryn Tirion, Maesywaen - cafwyd cadarnhad fod trefniadau mewn lle i atgyweirio'r ffordd.

iv) Cyffdy, Parc – roedd y gweithlu am atgyweirio'r ffordd lle'r oedd gwreiddiau'r goeden wedi achosi'r difrod.

v) Pont Rhyd-y-Fen - roedd y canllaw bren a'r canllaw gerrig wedi cael eu hatgyweirio.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn nosweithiau'r Parc a'r Cyngorau Tref a Chymuned yn ddiweddar.

ii) Fersiwn adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031.

b) Amrywiol

i) Cofeb Rhyfel Arenig - roedd Cyngor Tref y Bala wedi cysylltu i egluro eu bod wedi derbyn gohebiaeth bod y gofeb wedi cael ei difrodi ac roedd y Cyng. Dilwyn Morgan am wneud ymholiadau ynglŷn â'i atgyweirio.

ii) Heddlu Gogledd Cymru - gwybodaeth am eu hymgyrch diweddaraf 'Cadw Cymru'n Ddiogel' a gwahoddiad i'w diwrnod agored ar y 16eg o Fedi.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad:-

NP5/72/118A – Gosod ffenestri to. Bryn Goleu, Rhyduchaf

NP5/72/118B – Newid defnydd tir i ymestyn cwrtil domestig. Bryn Goleu, Rhyduchaf

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniwyd ail randal y Praesept £2000.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - cyflwynodd y clerch yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

c) Adroddiad Blynyddol – derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Cytunwyd i'w gymeradwyo ac arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ar y wefan.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:- Cyflog y Clerc (Ebr-Meh),TWE a Chyngor Gwynedd (costau etholiad).

vii) Unrhyw Fater Arall

a) Torri ochrau ffyrdd yr ardal.

Darllenwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd yn egluro eu bod wedi cael problemau gyda'r contractwyr presennol ond roedd bwriad i wella'r trefniant erbyn y tymor tyfiant flwyddyn nesaf. Nid oedd y cynghorwyr yn hapus iawn gyda safon y gwaith a wnaed yn yr ardal felly gofynnwyd i'r clerc basio'r sylwadau ymlaen i'r arolygwr priffyrdd.

b) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

i) Pont Bryn Ifan, Arenig - roedd canllaw'r bont yn fregus iawn ac mewn peryg o ddisgyn lawr i'r afon.

ii) Ffogydd angen eu hagor rhwng rhiw Parc a Pant Neuadd - roedd amryw o ffogydd wedi tagu a'r dŵr yn dod drosodd i'r ffordd